# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2013** |
| Amser: | **09:30 – 10:19** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_200000_09_07_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mick Antoniw (Cadeirydd)**<br>**Llyr Gruffydd**<br>**Mark Isherwood**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Lara Date (Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Owain Roberts (Ymchwilydd)**<br>**Gareth Rogers (Swyddog)** |

**TRAWSGRIFIAD**

View the meeting transcript.

## 1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. Nid oedd Gerard Elias QC, y Comisiynydd Safonau, yn bresennol, ond fe gygflwynodd bapur i'r Comisiwn ei ystyried (Eitem 4).

## 2 Eitemau'r Cadeirydd

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r gwahoddiad a gafwyd i ddarlith gyntaf Comisiynydd Safonau Cymru ddydd Mawrth 16 Gorffennaf. Bydd y ddarlith, 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar flaen y gad o ran safonau mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru' yn cael ei thraddodi gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Judge, Prif Ustus Cymru a Lloegr.

Nododd y Cadeirydd bod disgwyl i adroddiad blynyddol y Comisiynydd ar gyfer 2012-13 gael ei chyhoeddi a'i gosod gerbron y Cynulliad ddydd Llun 15 Gorffennaf. Bydd linc i'r adroddiad hefyd ar gael ar wefan y Pwyllgor.

## 3 Ystyried Argymhellion Adroddiad GRECO

Nododd y Cadeirydd bod pump o argymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor bapur ar yr adroddiad a nododd fod yr argymhellion ar ddal cyfranddaliadau a rhoddion yn cael eu hystyried eto pan fydd y gofrestr o fuddiaannau yn cael ei hadolygu yn yr hydref. Nodwyd hefyd y dylid ystyried yr argymhelliad ynghylch ymddygiad staff cymorth yr Aelodau gael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r gweithdrefnau safonau a Chod Ymddygiad yr Aelodau.

## 4 Y Diweddaraf gan y Comisiynydd Safonau ar yr Adolygiad o'r Cod Ymddygiad a chanllawiau cysylltiedig

Ystyriodd y Pwyllgor y papur gan y Comisiynydd. Rhoddodd y papur y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ail gyfnod yr adolygiad o'r weithdrefn safonau.

Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Comisiynydd barhau â'r darn o waith am y Rheolau Sefydlog, y Cod Ymddygiad ac unrhyw ganllawiau cysylltiol sy'n ymdrin â Buddiannau Cofrestradwy a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor yn y maes hwn. Nododd y Cadeirydd y bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Nododd a chytunodd y Pwyllgor yr adrannau drafft cychwynnol ar y Cod Ymddygiad a ddarparwyd gan y Comisiynydd – y Rhagymadrodd ac Adran 1 o'r Cod arfaethedig newydd.

## 5 Papurau i'w nodi

Nododd y Pwyllgor y papurau.

### 5.1 SOC(4)-05-13 - Papur 3 - Adroddiad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol - Llythyr gan y Llywydd

5.2 SOC(4)-05-13 – Papur 4 – Adroddiad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol – Llythyr gan Gadeirydd y Bwrdd Taliadau

5.3 SOC(4)-05-13 – Papur 5 – Llythyr gan y Llywydd ar Sancsiynau

5.4 SOC(4)-05-13 – Papur 6 – Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor i'r Llywydd ar Sancsiynau